# Crynodeb o Gyfarfod yr Hydref,

# Sir y Fflint Ifanc

# 22/11/2024

**Cyflwyniad i Fodel Sir y Fflint Ifanc**

Cyflwynodd Mared Eastwood, Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden, Claire Homard, Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid a Neal Cockerton, Prif Weithredwr, fodel Sir y Fflint Ifanc a datblygiad llais pobl ifanc yng Nghyngor Sir y Fflint er mwyn sicrhau:

- bod eu llais yn cael ei glywed a'u bod yn cael siarad â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.
- bod cyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at weithgorau a phrosiectau eraill a gynhelir gan y Cyngor.
- ymwybyddiaeth o sut mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio ac addysgu ynglŷn â democratiaeth i bobl ifanc a chymunedau.

Rhannwyd trosolwg o'r cynllun peilot a gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf 2024, lle canolbwyntiwyd ar dri maes ffocws o'r ymgyrch 3 mater, lluniwyd adroddiadau a chafwyd cyflwyniadau gan swyddogion perthnasol o adrannau'r Cyngor ar y pynciau.

- Iechyd Meddwl a Lles
- Ysgol ac Addysg
- Amwynderau a Diogelwch yn y Gymuned

**Gweithgaredd Meithrin Tîm**

Fe estynnwyd gwahoddiad i'r mynychwyr weithio mewn grwpiau i **ddefnyddio'r** darnau Lego a chreu dyluniad sy'n cynrychioli erthygl o'r CCUHP. Fe adroddodd y grwpiau yn ôl ar eu dyluniadau creadigol ac fe wnaethant archwilio'r CCUHP ymhellach.

**Cam Gweithredu**: Cafwyd adborth hynod gadarnhaol ar y gweithgareddau creadigol ac y dylid cynnwys mwy o weithgareddau o'r fath mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

**Trafodaeth Arolwg y Bobl Ifanc**

Trafodwyd themâu a ddyrannwyd o Arolwg Pobl Ifanc yr Hydref mewn gweithgorau, gan archwilio data cadarnhaol i'w dathlu, meysydd y dylid canolbwyntio arnynt a chamau gweithredu i'w cefnogi. Cyflwynwyd adborth gan y gweithgorau yn y Siambr.

**Camau Gweithredu**: Bydd yr adborth yn helpu i lywio'r cynllun gwaith wrth symud ymlaen. Y bobl ifanc i ddychwelyd i leoliadau i archwilio 'Gwybodaeth am eich Cyngor a'i wasanaethau ymhellach'.

**Strategaeth Newid Hinsawdd**

Bu i'r tîm Newid Hinsawdd gyflwyno'r Strategaeth Newid Hinsawdd ac estyn gwahoddiad i Sir y Fflint Ifanc gymryd rhan mewn grŵp ffocws ymgynghori sydd i ddod. Cyfeiriwyd at y Pecyn Gwaith Newid Hinsawdd i Ysgolion, y mae Castell Alun yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Dilynwch y ddolen isod i ddysgu mwy am yr adnodd hwn. Mae'r Ddolen i'r Pecyn Gwaith Hinsawdd i Ysgolion yn eu helpu i fesur eu heffaith a gweithredu trwy wybodaeth, adnoddau a chyfeirio at sefydliadau gwych eraill. Mae hyn wedi'i gynllunio i gynnwys pobl ifanc fel chithau ym mhob agwedd, fel bod modd i chi ddysgu gwybodaeth newydd, datblygu sgiliau newydd a chael cyfle i ddylanwadu ar weithredoedd.

**Cyfrifiannell WWF:** Mae tudalen we neu ap ffôn WWF My Footprint yn eich helpu i gyfrifo eich ôl troed carbon eich hun a deall beth yw eich prif effeithiau (yn y cartref, teithio, bwyd ac ati). Yn bwysicach fyth, mae'n eich herio i weithredu ar yr hyn y gall pawb ei wneud.

**Camau Gweithredu**: Fe estynnwyd gwahoddiad i'r bobl ifanc fynychu ymgynghoriad ar Newid Hinsawdd, ddydd Llun 9 Rhagfyr.

**Dyddiad y Digwyddiadau a'r Cyfarfodydd Nesaf:**

Diwrnod Gweithdai: 4 Chwefror

Cyfarfod y Gwanwyn: 28 Mawrth